Datganiad i'r wasg
25 Mehefin 2009

HWYL YR HAF I BAWB

Bydd yn haf i'w gofio i nifer o aelodau Urdd Gobaith Cymru a fydd yn heidio i ŵyl arbennig llawn hwyl yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru ar ddydd Iau a Gwener, 9-10 Gorffennaf. Dyma'r trip ysgol perffaith i ddiweddu'r tymor!

Bydd y cyfan yn ddechrau prosiect arbennig i sicrhau fod dyfodiad y gemau Olympaidd yn gadael gwaddol, ac mae'n cael ei ariannu gan Gronfa Waddol y DU. Noddir 'Hwyl yr Haf' gan Gronfa Waddol y DU fel rhan o brosiect Grym y Fflam sy'n edrych ymlaen at y Gemau Olympaidd yn 2012.

Meddai Dugald Mackie, Cadeirydd Bwrdd Legacy Trust UK: "Mae Legacy Trust UK wedi ariannu prosiectau arloesol a chyffrous ym mhob ardal a gwlad yn y Deyrnas Unedig, prosiectau sy'n rhoi sylw i werthoedd Gemau 2012. Yng Nghymru, rydym yn ariannu rhaglen newydd a dyfeisgar fydd yn rhoi cyfle i unigolion a chymunedau arddangos eu creadigrwydd i weddill y byd. Mae'r ŵyl haf hon yn elfen gyffrous, yn cynnig diwrnod o weithgareddau ar thema'r Gemau Olympaidd fydd yn cynorthwyo i hyrwyddo ymrwymiad hir dymor pobl ifanc o bob rhan o Gymru mewn gweithgaredd."

Yn ystod gŵyl 'Hwyl yr Haf ', bydd cyfle i weld murlun a wnaed gan gannoedd o bobl ifanc yn Eisteddfod yr Urdd o dan arweiniad yr artist proffesiynol Luned Rhys Parri ar thema'r Gemau Olympaidd. Bydd cyfle i ganu cân arbennig wedi ei chomisiynu gan Caryl Parry Jones ar y thema 'Gemau Olympaidd' a bydd cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon Olympaidd gan gynnwys saethyddiaeth a chanŵio.

Yn ogystal bydd y diwrnodau yn benllanw misoedd o gydweithio rhwng yr Urdd a Sain Ffagan ar sawl cynllun sy'n cynnwys prosiect celfyddydol 'Triongl' sef cadwyn o weithgareddau celfyddydol a drefnwyd dros Gymru. Mae ffrwyth cynnyrch y prosiect yma yn rhan o Arddangosfa urdd.org sydd yn Oriel 1 yn Sain Ffagan tan 11 Gorffennaf 2009 – arddangosfa sy'n olrhain hanes yr Urdd ac yn rhoi blas o'r mudiad heddiw. Mae'r arddangosfa yn adlewyrchu tair agwedd o waith yr Urdd sef cymdeithasu, cystadlu a chasglu.

Dros ddeuddydd gŵyl Hwyl yr Haf, bydd dros bedair mil o blant blynyddoedd 3 i 6 yn cael cyfle i fwynhau arlwy gyffrous o weithgareddau hwyliog a blasu holl atyniadau difyr Sain Ffagan. Rhennir Sain Ffagan yn dair ardal gyda digwyddiadau gwahanol yn cael eu cynnal ymhob un.

Ardal Gwales

Dyma ardal sy'n llawn o atyniadau godidog Sain Ffagan, gyda chyfle i fynd ar y trên bach, neidio ar drampolinau'r Urdd, mwynhau stori a sioe gonsurio, gweld sioe Mistar Urdd, edmygu'r dawnswyr gwerin, a chael blas ar weithgareddau yn y goedwig a'r Pentref Celtaidd.

Ardal y Rimbojam

Mae Urdd Gobaith Cymru a Monsŵn, cynllun cerddoriaeth i bobl ifanc Ynys Môn, wedi lansio deg o ganeuon newydd gan y gantores boblogaidd Caryl Parry Jones. Bydd sioe fyw ryngweithiol, fywiog o'r enw Rimbojam yn cael ei chynnal yn rhan o arlwy Hwyl yr Haf gyda chyfle i bawb ymuno yn y canu a'r dawnsio a bydd pob ysgol hefyd yn derbyn cryno ddisg Rimbojam.

Ardal Chwaraeon

Bydd tîm chwaraeon yr Urdd yn cynnig arlwy Olympaidd o chwaraeon yng ngerddi Sain Ffagan: o bysgota i saethyddiaeth, o ganŵio, i gyfeiriannu a chyfle i gwrdd â sêr rygbi'r Gleision.

Meddai Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru: "Mae Hwyl yr Haf yn gyfle i'n haelodau ifanc o bob cwr o Gymru ddod ynghyd i brofi bob math o weithgareddau hwyliog a hynny ar safle godidog a hudolus Sain

Ffagan. O gyd-ganu caneuon Caryl Parry Jones yn y Rimbojam i sesiynau canŵio, peintio wynebau a sioeau consuriwyr a storïwyr mi fydd yn sicr yn ddiwrnod i'r brenin i bawb.

"Rydym wrth ein bodd fod ein haelodau yn mynd i gael budd o Gronfa Waddol y DU, ac fe fydd hyn yn ddechreuad penigamp i weithgareddau'r pedair blynedd nesaf."

Diwedd

Am fwy o fanylion cysyllter â Manon Llwyd, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, 01970 613112, manonllwyd@urdd.org. Neu 07976 330360.

15 Mehefin 2009

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd 51,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.